**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd dros y we ddydd Llun, 8 Mawrth, 2021.**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Mark Strong (Cadeirydd), y Cynghorwyr Bryan Davies, Gethin Davies, Marc Davies, Odwyn Davies, Keith Evans, Hag Harris, Alun Lloyd Jones, Lyndon Lloyd MBE, Dan Potter, John Roberts, Lynford Thomas ac Ivor Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Ray Quant MBE, Alun Williams (Aelodau Cabinet).

**Y swyddogion a oedd yn bresennol:** Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad, a Diogelu'r Cyhoedd; Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, Diogelu; Heddwyn Evans, Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd; Anne-Louise Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu; Hannah Rees, Swyddog Llywodraethu; Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; Kay Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

10.00am – 1.00pm

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Paul Hinge ac Elaine Evans.

**2. Materion personol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Roedd y Pwyllgor yn dymuno cyfleu eu cydymdeimlad â theulu Judi O'Rourke, Rheolwr Corfforaethol – Cymorth Estynedig, Gwasanaethau i Oedolion, a fu farw yn ddiweddar. Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof amdani.

**3. Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu.

**4. Diwygiadau i Reoliadau Mangreoedd Di-fwg (Cymru) 2007- rhoi gwybodaeth am y gofynion ychwanegol yn sgil yr ardaloedd awyr agored di-fwg newydd a gyflwynwyd yn Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020**

Rhoddodd Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd gefndir yr adroddiad i roi gwybod i aelodau'r Pwyllgor am ddeddfwriaeth ddiwygiedig a'r gofynion ychwanegol hynny, a cheisio'r canlynol:

- Argymhelliad ynglŷn â'r darpariaethau yng nghanllaw Llywodraeth Cymru sy'n rhoi caniatâd i weithredu gwaharddiad lleol ar Systemau Electronig ar gyfer Cyflenwi Nicotin (fêpio/e-sigaréts) yn yr ardaloedd di-fwg hynny; ac
- Argymhelliad i ddarparu awdurdodiad i swyddogion Diogelu'r Cyhoedd o dan Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020.

Mae angen awdurdodiad o dan y rheoliadau uchod ar swyddogion Diogelu'r Cyhoedd er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth ar ran yr Awdurdod.

Rhoddodd Heddwyn Evans, Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd, gyflwyniad Powerpoint ar yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am y newidiadau. Ar 1 Mawrth 2021, cafodd y gofynion di-fwg a fodolai eu hymestyn yn Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020, fel a ganlyn:-

-  Diwygio'r rheoliadau o safbwynt rhai cerbydau ac anheddau, unedau iechyd meddwl, cartrefi gofal i oedolion a hosbisau i oedolion.
-  Cyflwyno ardaloedd awyr agored di-fwg newydd o 1 Mawrth 2021 (tiroedd ysbytai ac ysgolion, parciau chwarae, lleoliadau gofal plant awyr agored.)
-  O 1 Mawrth 2022 ymlaen, dileu'r eithriadau i'r gofynion di-fwg sydd yn berthnasol ar hyn o bryd i ystafelloedd mewn gwestai, tai llety a thafarnau.

Mae'r Rheoliadau yn berthnasol i ysmygu tybaco ond nid ydynt yn berthnasol i'r defnydd o e-sigaréts/fêpio (Systemau Electronig ar gyfer Cyflenwi Nicotin yn Electronig (ENDS). Fodd bynnag, mae canllaw Llywodraeth Cymru yn caniatáu i'r rheolwyr neu'r unigolion sy'n gyfrifol am leoliadau di-fwg gyflwyno gofynion gwirfoddol anneddfwriaethol i wahardd e-sigaréts os dymunant.
Gall unigolyn sy'n cyflawni'r drosedd o ysmygu mewn mangre di-fwg dderbyn Hysbysiad Cosb Benodedig o £100 a gyflwynir gan swyddog Diogelu'r Cyhoedd.

Trafododd yr Aelodau'r wybodaeth yn helaeth, ac roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys y canlynol:

i. Angen cynnwys gwaharddiad ar fêpio mewn ardaloedd dim ysmygu. Er nad yw hyn wedi'i gynnwys yn y rheoliadau ar hyn o bryd, nodwyd y gallai'r Pwyllgor argymell gwahardd fêpio ar safleoedd a thir y Cyngor, fodd bynnag ni fyddai gan y Cyngor unrhyw bwerau gorfodi mewn perthynas â fêpio. Nodwyd nad yw Awdurdodau eraill yng Nghymru wedi cyflwyno gwaharddiad ar fêpio, ond gall Ceredigion fwrw ati os caiff hynny ei gymeradwyo.
ii. Mynegwyd pryderon ynglŷn â gyrwyr bysiau yn ysmygu mewn meysydd parcio wrth aros i ddisgyblion fynd ar eu bysiau. Byddai angen eglurder ynghylch a yw mannau parcio bysiau ar eiddo'r ysgol, ac os felly byddai'n ofynnol iddynt beidio ag ysmygu.
iii. Nodwyd bod arwyddion wedi'u prynu i'w harddangos ar safleoedd sy'n eiddo i Gyngor Sir Ceredigion.
iv. Cynigiwyd gweithdy i'r Cyngor gan fod y ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar bob ward.
v. Nododd rhai aelodau y byddai'n anodd plismona'r gwaharddiad. Fodd bynnag, nodwyd bod cydymffurfiaeth wedi bod yn gadarnhaol ers i'r ddeddfwriaeth ar beidio ag ysmygu ddod i rym. Nodwyd nad oes adnoddau ychwanegol i roi'r ddeddfwriaeth newydd ar waith.

Roedd yn ofynnol i aelodau'r pwyllgor wneud y canlynol:

- Ystyried cynnwys a goblygiadau'r adroddiad ac argymell y cymerir camau i sicrhau bod pob un o leoliadau di-fwg yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol newydd.
- Nodi'r gofynion gorfodi ychwanegol ar wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd.
- Argymell cynnwys e-sigaréts yn rhan o'r gwaharddiad ar ysmygu mewn rhai (neu'r cyfan) o'r lleoliadau di-fwg y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdanynt; ac argymell unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 yn cael eu gweithredu.

Derbyniodd y Pwyllgor yr argymhellion hyn gydag awgrym y dylai'r Cyngor Llawn ystyried y canlynol:

- Y dylai unrhyw arwyddion di-fwg sy'n cael eu harddangos roi neges glir ei fod yn cynnwys pob math o ysmygu, gan gynnwys fêpio;
- Dylid darparu canllawiau clir i Gynghorau Cymuned a Thref a chyrff allanol sy'n prydlesu neu'n defnyddio eiddo a/neu dir sy'n eiddo i'r Cyngor; a
- Bod angen i ni, fel Awdurdod, fod yn rhagweithiol wrth ystyried polisïau o'r fath er mwyn arwain drwy esiampl.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd a Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd am yr adroddiad.

**5. Gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru bellach yn gyfraith**

Rhoddodd Alun Williams, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, gefndir yr adroddiad a gyflwynwyd gan Anne-Louise Davies er mwyn rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor am ddeddfwriaeth newydd sy'n gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru ac i geisio argymhelliad i ddarparu awdurdodiad o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020 ar gyfer swyddogion Diogelu'r Cyhoedd.

Mae angen awdurdodiad ar swyddogion o fewn gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020 er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth ar ran yr Awdurdod.

Yn 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol drafft gyda'r nod o fynd i'r afael â phryderon moesegol pobl ledled Cymru drwy wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru. Denodd nifer fawr o ymatebion (dros 6,500 o ymatebion) gyda 97% o'r ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon.

Nid yw'r rhan fwyaf o syrcasau teithiol yn defnyddio unrhyw anifeiliaid mwyach, a dim ond dwy syrcas sy'n teithio'r DU sy'n parhau i fod ag anifeiliaid gwyllt. Mae'r anifeiliaid gwyllt y maent yn eu cadw yn cynnwys camelod, sebras a cheirw. Mae'r ddwy syrcas wedi'u lleoli yn Lloegr, ond maent yn ymweld â Chymru'n rheolaidd. Mae'r gostyngiad yn nifer yr anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu cadw yn arwydd nad yw'r math hwn o adloniant mor boblogaidd gyda'r cyhoedd ag yr oedd ar un adeg. Mae cadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, a hynny at ddiben ein diddanu ni yn unig, bellach yn cael ei ystyried yn hen ffasiwn ac nid yw'n cyfrannu fawr ddim at wella ein dealltwriaeth o anifeiliaid gwyllt na'u cadwraeth.

Mae'r Ddeddf, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020, bellach yn ei gwneud yn drosedd i weithredwr syrcas deithiol ddefnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol yng Nghymru, neu beri neu ganiatáu i berson arall wneud hynny. Yn yr un modd, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban waharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn 2018, a gwnaeth Lloegr yr un peth yn 2019.

Caiff anifail gwyllt ei ‘ddefnyddio’ os yw’r anifail yn perfformio neu’n cael ei arddangos. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys, er enghraifft, gosod yr anifail gwyllt yn fwriadol mewn unrhyw ffordd sydd wedi ei bwriadu i hyrwyddo syrcas deithiol. Os canfyddir bod gweithredwr yn euog o drosedd, gall y llys bennu dirwy ddiderfyn.

Dim ond swyddogion a benodir yn arolygwyr gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru neu gan Weinidogion Cymru all orfodi darpariaethau'r Ddeddf newydd yng Nghymru. Felly, mae angen awdurdodiad ar swyddogion o fewn gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, sef swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, a Thrwyddedu, o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020 ac unrhyw reoliadau cysylltiedig i gyflawni'r ddyletswydd orfodi a osodir ar Gyngor Sir Ceredigion at ddibenion gorfodi'r gwaharddiad newydd hwn.

Yn dilyn trafodaeth, derbyniodd y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:

(i) Bod y pwyllgor Craffu yn ystyried cynnwys a goblygiadau’r adroddiad, ac yn argymell y dylid dirprwyo’r pŵer i’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol awdurdodi Swyddogion o wasanaethau Diogelu’r Cyhoedd i orfodi Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru); a
(ii) Bod y Pwyllgor Craffu yn argymell bod y newidiadau angenrheidiol i’r cyfansoddiad yn adlewyrchu rhoi Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020 ar waith.

**6. Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 2, 2020 - 2021**

Cyflwynodd Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, Diogelu, yr adroddiad i’r Pwyllgor er mwyn iddynt fonitro cynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal trwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod ail chwarter 2020/2021. Mae'r wybodaeth hon yn cyfrannu at Aelodau yn cyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac mae'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.
Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion a gall argymell newidiadau i'r cynllun gofal.
Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol er mwyn derbyn cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad oedd angen cymryd y cam hwn ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod dan sylw.
Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc a gallai gyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ystod y drafodaeth, roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys y canlynol:

i. Yn ystod y chwarter hwn, bu gwelliant yn nifer yr ymweliadau statudol â Phlant sy’n Derbyn Gofal. Fodd bynnag, bydd y diffyg ymweliadau hyn wedi'u cofnodi ar y Ffurflenni Monitro ac mae COVID-19 wedi effeithio ar ymweliadau. Mae pob ymweliad wyneb yn wyneb yn destun asesiad risg. Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud i wella hyn. Nododd yr Aelodau y byddent yn croesawu ffigurau gwell yn yr adroddiad nesaf.
ii. Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn asesu pob unigolyn o ran yr adeg briodol i ddarparu eglurhad ynghylch pam eu bod yn derbyn gofal.
iii. Mae'r angen parhaus am fwy o ofalwyr maeth yn parhau i fod yn her, ac yn enwedig gofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg. Mae gofalwyr maeth wedi ymdopi'n dda iawn yn ystod y pandemig, yn enwedig o ystyried mai ychydig iawn o gymorth wyneb yn wyneb a ddarparwyd. Mae cymorth wedi parhau i gael ei roi yn rhithiol.
iv. Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal hefyd yn cael eu cefnogi’n rhithiol ac nid yw'r Gwasanaeth wedi cael problemau technegol yn y sefyllfaoedd hyn.
v. Mae pobl ifanc sy'n derbyn gofal sydd ar gynlluniau llwybr ac sy'n symud i'w cartrefi eu hunain yn parhau i weithio â’u Gweithiwr Cymdeithasol Dynodedig ac yn parhau i gael eu hadolygu gan Swyddog Adolygu Annibynnol. Darperir cymorth i’r graddau y mae hynny’n bosib i bobl ifanc sy’n derbyn gofal hyd nes eu bod yn 25 mlwydd oed. Mae ymweliadau hanfodol wedi parhau i gael eu cynnal.
vi. Ystyrir ymyrraeth therapiwtig ym mhob adolygiad lle mae anghenion meddyliol ac emosiynol yn cael eu hystyried.
vii. Mae digon o staff a gofalwyr maeth yn parhau i fod yn broblem. Defnyddir asiantaethau allanol os oes angen.

Diolchwyd i'r Rheolwr Corfforaethol, Diogelu, am yr adroddiad cynhwysfawr.

Ar ôl ystyried a thrafod, cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach i nodi cynnwys yr adroddiad a’r lefelau gweithgarwch gyda'r Awdurdod Lleol.

**7. Blaenraglen Waith Ddrafft 2020/21**

Trafodwyd a chytunwyd ar Flaenraglen Waith Ddrafft 2020/21 fel y’i cyflwynwyd ynghyd â’r cynnig o ychwanegu’r canlynol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol:

a. Gwybodaeth ynghylch a oes digon o gyfleodd i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ddefnyddio’r Gymraeg.
b. Tipio anghyfreithlon.
c. Cefnffordd yr A487: yr angen am fwy o gydweithio gyda’r asiantaethau cefnffyrdd.
d. Sbwriel ar ochrau ffyrdd.

Holodd y Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE a ddylid diwygio rôl y Pwyllgor er mwyn iddo graffu ar faterion sy'n ymwneud â Phorth Cymorth Cynnar, Porth Cynnal a Phorth Gofal yn unig. Dywedodd y Cadeirydd mai eu dyletswydd nhw oedd sicrhau bod materion o fewn cylch gwaith presennol y Pwyllgor hwn yn cael yr un sylw ac y craffir arnynt yn gyfartal.

**8. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020 a 18 Chwefror 2021 ac ystyried unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

i. Penderfynodd y Pwyllgor gadarnhau bod cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020 yn gywir.
ii. Materion yn codi o Gofnodion 19 Tachwedd 2020: Nid oedd unrhyw faterion yn codi.
iii. Penderfynodd y Pwyllgor gadarnhau bod cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2021 yn gywir.
iv. Materion yn codi o Gofnodion 18 Chwefror 2021. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**9. Unrhyw Fusnes Arall**

Gofynnodd y Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE am wybodaeth mewn perthynas ag ymweliadau rheolaidd gan swyddogion perthnasol â chartrefi gofal preifat a chartrefi gofal y cyngor yn y sir er mwyn sicrhau bod gofal priodol yn cael ei roi i breswylwyr.

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:-**
**Dyddiad:**

**Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd o bell trwy fideo-gynadledda ddydd Iau, 18fed Mawrth 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Bryan Davies, Gethin Davies, Marc Davies, Odwyn Davies, Elaine Evans, Keith Evans, Hag Harris, Paul Hinge, Alun-Lloyd-Jones, Maldwyn Lewis, Lyndon Lloyd MBE, Dan Potter, John Roberts, Mark Strong, Lynford Thomas ac Ivor Williams.

1.25pm – 1.35pm

1 **Ymddiheuriadau**
Ni chafwyd yr un ymddiheuriad.

2 **Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu (gan gynnwys datganiadau Chwipio)**
Ni ddatgelwyd dim buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu.

3 **Ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2021/22, gan ddod i rym ar 15fed Mai 2021**
Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Mark Strong a'i eilio gan y Cynghorydd Lynford Thomas y dylid ethol y Cynghorydd Bryan Davies yn Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Cynigiodd y Cynghorydd Keith Evans y dylai'r Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE gael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach, a eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Davies MBE.

Nodwyd y byddai Cadeirydd a allai gael mynediad i gyfarfodydd yn rhithwir yn unig yn cael anhawster yn y rôl ac eglurwyd mai'r bwriad oedd y byddai'r Cynghorydd Bryan Davies yn Gadeirydd dim ond hyd nes y gellir cynnal cyfarfodydd yn bersonol ac ar yr adeg honno byddai'r Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE yn dod yn Gadeirydd y Pwyllgor.

Yn dilyn eglurhad o hyn, tynnodd y Cynghorydd Keith Evans a'r Cynghorydd Peter Davies MBE eu cynnig yn ôl.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol bod y Cynghorydd Bryan Davies yn cael ei ethol yn Gadeirydd dros dro'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach o ddechrau blwyddyn fwrdeistrefol 2021/22, tra bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir.

4 **Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2021/22, gan ddod i rym ar 15fed Mai 2021**
Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Mark Strong a'i eilio gan y Cynghorydd Lynford Thomas a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol y dylid ethol y Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE yn Is-gadeirydd dros dro'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach o ddechrau blwyddyn fwrdeistrefol 2021/22, a byddai'n dod yn Gadeirydd unwaith y bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn

ailddechrau. Nodwyd, yn absenoldeb y Cadeirydd mewn cyfarfod rhithwir, y byddai'r Cadeirydd blaenorol yn gweithredu fel Cadeirydd ar gyfer cyfarfod hwnnw’r pwyllgor.

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar xxxx 2021**

**Cadeirydd:**